




HOSPIS TŶ' REOS 2020
ADRODDIAD BLYNDDOL

CYSYLLTWCH Â NI

 Nightingale House Hospice,
Chester Road, Wrexham, LL11 2SJ

 01978 316800

 info@nightingalehouse.co.uk

 nightingalehouse.co.uk

 nightingalehouse

 nightingalehh

CYFARWYDDWYR AC AELODAU PWYLLGOR YR YMDDIRIEDO WYR

Mr Medwyn Edwards (President)

Mrs Eluned Griffiths (Chair)

Dr N Braid (Vice-Chair)

Mrs A Brebner

Mr R Cole

Dr J Duguid

Mr G Greasley

His Honour P Hughes

Mrs J Lowe

Mr A Morse

Mrs C Varley

Mr P Weston

DATGANIAD AMCANION

Darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac ardaloedd y gororau sy'n dioddef o waeledd cyfyngu ar oes, a chynnig y rhain, os yw'n bosibl, yn unol â dewis y cleifion a phob amser oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael i Hospis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o'r anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol, darperir y gwasanaethau gan dîm amlddgyblaethol hyfforddedig sy'n atebol i gwrdd ag anghenion yr holl gleifion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cymhleth ac arbenigol.

GWELEDIGAETH

Darparu gofal rhagorol, personoledig a thosturiol ar gyfer y rhai sy'n byw â gwaeledd cyfyngu ar oes yn ein cymuned a chefnogi eu teuluoedd a'u hanwyliaid.


GWERTHOEDD

Mae gwerthoedd ar waith ymhob sefyllfa, yn ymwneud y staff â'r gwirfoddolwyr, yn y modd rydyn ni'n trin ein cleifion a'u teuluoedd, a sut rydyn ni'n cydweithio gyda'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, ein cefnogwyr a'n cyflenwyr. Ar bob achlysur, ceisiwn fod yn dosturiol a chynhwysol, yn onest, a pharchus a rhagweithiol.

EIN DALGYLCH

Mae ein siopau ynghanol curiad calon ein cymunedau lleol ac maen nhw'n gyfrwng i sbarduno gweithgareddau codi arian llwyddiannus. Mae gennym siopau yn Wrecsam, Yr Wyddgrug, Cefn Mawr, Rhos, Bwcle, Eglwys Wen, Ellesmere a Chroesoswallt.

Mae grwpiau cefnogi'n arwyddion gweledol sy'n tynnu sylw at yr hosbis yn y gymuned, gan weithredu fel llysgenhadon dros ein hachos. Rydyn ni'n ffodus o gael ein cynrychioli yn yr ardaloedd canlynol: Y Bala, Y Waun, Corwen, Hanmer, Lavister, Coed-llai, Llangollen, Yr Wyddgrug, Rhos a Wrecsam.



Hospis Tŷ'r Eos

Rhif Cofrestredig yr Elusen : 1035600 (Registered in England and Wales)

CROESO

Mae bob amser yn frainit i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol. Bu'r wlad dan glo am bron y cyfan o 2020 ac o'r herwydd mae'r adroddiad hwn yn wahanol i unrhyw un o'r rhai blaenorol.

Cafodd cyfyngiadau'r cyfnod clo effaith ar unwaith, gan ei gwneud hi'n amhosibl cynnal ein gweithgareddau codi arian arferol, a'n masnach adwerthu ac arlwygo ac fel canlyniad bu gostyngiad o £1.5 m yn yr incwm a ddisgwyliem am y flwyddyn. Digolledwyd y diffyg i ryw raddau gan y nawdd argyfwng a ryddhawyd gan Gynulliad Cymru a'r Cynllun Cynnal Swyddi a Chymorth Trethi Busnes y cyngor lleol.

Parhaodd ein nawdd statudol i leihau o ran ei wir werth ac nid yw ein trafodaethau gyda BCUHB a fu'n mynd ymlaen am bron ddwy flynedd, wedi cyflwyno, hyd eto, fodel realistig ar gyfer noddi'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'r Bwrdd lechyd nac ychwaith gydraddoldeb trwy ofalu ein bod yn derbyn yr un faint o nawdd â'r hyn sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hosbisau yn Ne Cymru drwy eu Byrddau lechyd. Fel canlyniad i'r pwysau cynyddol a fu ar y cyfryngau, rydyn ni bellach yn symud ymlaen a gobeithio y byddwn yn cyhoeddi, maes o law, bod model noddi boddhaol yn ei le erbyn 2021.

Nid yw'r cyfnod clo wedi rhwystro ein tîm cynhyrchu incwm na'n cefnogwyr rhag codi arian. Maen nhw wedi ymateb yn anhygoel i'r her, drwy addasu'r gweithgareddau codi arian sy'n bodoli'n barod a chreu mentrau dyfeisgar newydd. Ceir manylion am y gweithgareddau codi arian hyn ar dudalennau'r adroddiad hwn. Rydyn ni'n ddiolchgar bod ein lotri yn parhau i gael ei gefnogi'n dda ac mae wedi darparu arian hanfodol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae ymroddiad a phroffesiynoldeb y staff clinigol wedi eu galluogi i oresgyn yr heriau y bu'n rhaid iddyn nhw eu hwynebu a pharhaodd y gwasanaethau cleifion-mewnol, gan ddefnyddio Offer Diogelwch Personol ond bu'n rhaid cyfyngu ar yr ymweliadau er mwyn diogelu cleifion, ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr.

Ni allai'r Gwasanaethau Dyddiol a'r Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd weithredu o fewn yr hosbis ond parhaodd y cyswllt gyda'r cleifion trwy gynnal ymgynghoriadau dros y ffôn ac ar fideo, gan roi gwybodaeth angenrheidiol iawn ynglŷn â gofal a chefnogaeth i'n cleifion a'u teuluoedd. Y llynedd, cyflwynwyd hefyd ein 'Gwasanaeth Ymgynghoriadau Uniongyrchol' yn yr hosbis fel ymateb i'r pandemig, gan sicrhau bod ein cleifion a'u hanwyliaid yn cael mynediad i'n gwasanaethau heb oedi a bydd hwn bellach yn wasanaeth sefydlog parhaol.

Roedd 2020 i fod yn Ddathliad ein 25ain pen-blwydd a hefyd agoriad swyddogol rhannau newydd yr hosbis a foderneiddiwyd. Bu'n rhaid gohirio'r dathliadau hyn hyd y gellir rhagweld. Bu'r adnewyddu'n llwyddiant mawr, gan ddarparu'r cyfleusterau gwell sydd eu hangen i ymdopi â gofynion newidiol ein cleifion a'u teuluoedd. Edrychwn ymlaen at fedru croesawu ein cymuned i weld y cyfleusterau newydd hyn.



"Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth eithriadol yn ystod blwyddyn eithriadol."

Ein blaenoriaeth gydol y flwyddyn oedd sicrhau parhad cyllidol yr hosbis er mwyn cynnal gwasanaethau ar gyfer y cleifion. Dim ond trwy gefnogaeth anhygoel pawb sydd ynglŷn â'r hosbis y llwyddwyd i wneud hyn. Bu'r gefnogaeth hon yn eang ei chwmpas nid yn unig yn dyfeisio dulliau newydd o godi arian, ond hefyd yn helpu codi calonnau'r staff gyda rhoddion o Offer Diogelwch Personol, bwyd, diodydd a hufen iâ, a daeth hyd yn oed yr heddlu draw yn annisgwyl i glapio eu gwerthfawrogiad. Ni allwn ddiolch digon i bawb am amlygu'r fath garedigrwydd.

Mae gofyn inni barhau i bwysleisio ein bod yn hosbis elusennol, annibynnol sy'n golygu ein bod yn dibynnu'n gyfan gwbl ar gynhyrchu ein hincwm ein hunain i oroesi. Bydd cefnogaeth y nawdd argyfwng yn lleihau ac yna'n dod i ben ac felly mae'n hanfodol ein bod yn adfer ein ffynonellau incwm arferol.

Mae fy nghydweithwyr a minnau ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn diolch o galon i'n staff, ein gwirfoddolwyr, ein cymuned a'n busnesau lleol am eu hymdrechion arbennig a'u haelioni yn ystod blwyddyn waethaf ein bodolaeth. Rydych chi wedi sicrhau y bydd Tŷ'r Eos yn dal yma i ddarparu'r gofal lliniarol a chefnogi anghenion ein cymuned.

Hoffwn ddiolch hefyd i'm cyd-ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth a'u hymroddiad yn wynebu a goresgyn yr heriau strategol niferus a ddaeth i'r fei yn ystod 2020. Y flwyddyn nesaf bydd arnon ni angen llawn cymaint o gefnogaeth ym mha bynnag ffurf y gellwch ei gynnig, i sicrhau y bydd Tŷ'r Eos yn medru edrych ymlaen at ddarparu gofal lliniarol o'r safon uchaf i'w gymuned am 25 o flynyddoedd eraill

Eluned Griffiths, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Y TU ÔL I BOB RHIF MAE STORI AM FYWYD GO IAWN

DARPERIR EIN GOFAL GAN DÎM AML-DDISGYBLAETHOL – YN CYNNWYS NYRSYS, MEDDYGON, GWEITHWYR CYMDEITHASOL, FFISIOTHERAPYDDION, THERAPYDDION GALWEDIGAETHOL, THERAPYDDION CYFLENWOL, GWIRFODDOLWYR A MWY – YN CYDWEITHIO I GEFNOGI UNIGOLION A’U HANWYLIAID.

Isod ceir cipolwg ar y gweithgareddau a ddarparwyd gan ein tîm yn ystod 2020.

Oddi ar fis Mawrth daeth llawer o’n gweithgareddau wyneb yn wyneb arferol yn rhai rhithiol yn sgîl Pandemig Cofid -19.



167

CLEIFION-MEWNOL



230

GALWADAU A DDERBYNIWYD
AR LEIN GYNGOR 24awr YR
HOSBIS



163

PRESENOLDEB YN Y
GWASANAETHAU DYDDIOL
WYNEB YN WYNEB



279

SESIYNAU THERAPI
CYFLENWOL



51

PRESENOLDEB CLEIFION-
ALLANOL METHIANT Y GALON



501

PRESENOLDEB CLEIFION
ALLANOL METHIANT Y GALON



159

SESIYNAU CLEIFION YN Y
GAMPFA



502

SESIYNAU THERAPI
GALWEDIGAETHOL



77

OEDOLION A GYFEIRIWDYD AT
DÎM CEFNOGI TEULUOEDD



114

PLANT A GYFEIRIWDYD AT DÎM
CEFNOGI TEULUOEDD



289

PRESENOLDEB
YN Y SESIYNAU ADDYSG



35

SESIYNAU RHEOLI DIFFYG
ANADL



46

SESIYNAU ACIWBIGO



771

ASESIADAU RHITHIOL/
TELEGLINIGOL Y CLEIFION



154

APWYNTIADAU CLEIFION-
ALLANOL



633

ASESIADAU RHITHIOL /
TELEGLINIGOL Y GOFALWYR

GOFAL DROS GYFNOD COFID-19

Mae Hospis Tŷ'r Eos wedi gwneud newidiadau sylweddol yn y modd rydyn ni'n gweithredu wrth ymateb i'r pandemig Cofid-19. Mae'r tîm yn Nhŷ'r Eos wedi gorfod dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio sydd wedi newid y dull y mae llawer o'n gwasanaethau'n cael eu darparu.

GWASANAETHAU CLEIFION

Mae'r gwasanaethau cleifion-mewnol wedi parhau'n ddi-dor gydol y pandemig ac mae'r Gwasanaethau Dyddiol, Cefnogi Teuluoedd, Ailsefydlu a Methiant y Galon wedi cael eu haddasu gan ofalu ymlaenllaw bod cleifion yn medru derbyn yn ddiogel y gofal y mae arnyn nhw ei angen. Er mwyn diogelu'r cleifion, eu teuluoedd a'r staff yn Nhŷ'r Eos yn ystod y cyfnod clo, cyflwynwyd y mesurau a'r newidiadau canlynol:

- Cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr a gofalu bod y staff cyfan a'r ymwelwyr yn gwisgo mygydau.
- Trefnu asesiadau rhithiol a theleglinigol ar gyfer Cleifion Gwasanaethau Dyddiol a'u gofalwyr
- Trefnu cefnogaeth galar rhithiol a theleglinigol
- Gohirio dros dro therapïau celf, cerdd, a chyflenwol, hydrotherapi ac aromatherapi
- Cadw cysylltiad rhwng cleifion methiant y galon a'r hosbis drwy dechnoleg ddigidol
- Cleifion yn derbyn cefnogaeth rithiol gan y gwasanaethau Ailsefydlu
- Defnyddio technoleg ddigidol fel y gallai cleifion Methiant y Galon gadw mewn cysylltiad â'r hosbis

Fodd bynnag, yn ystod 2020 pan laciwyd y cyfyngiadau, roeddem yn medru gweld nifer fach o'n cleifion wyneb yn wyneb a chaniatáu mwy o ymwelwyr ar Uned y Cleifion-mewnol.

ADWERTHU A'R CAFFIS

Oherwydd y pandemig bu'n rhaid i'n siopau elusen a'n caffis gau eu drysau am ran helaeth o 2020 felly dechreuon ni chwilio am ffyrdd newydd o godi arian.

- Trefnon ni wasanaeth newydd yn dosbarthu a chasglu bwyd, 'Prydau'n Cyfri', sy'n codi arian y mae mawr ei angen arnom ac mae'n darparu bwyd o'r safon uchaf i'n cymuned

- Cynigiodd eBay a llwyfannau e-masnach eraill ddulliau gwahanol inni werthu ein nwyddau ail-law o'r radd orau
- Lansion ni siop anrhegion dros dro newydd a bu ar daith ar hyd a lled ein dalgylch pan laciwyd y cyfyngiadau.

CODI ARIAN

Yn ystod pandemig y coronafirws bu'n rhaid canslo neu ohirio nifer o'n gweithgareddau codi arian traddodiadol fel y digwyddiadau torfol noddedig, heriau tramor, ffeiriau a chiniawau ac oherwydd hyn creodd ein codwyr arian ddulliau newydd creadigol o gynhyrchu arian. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno ymgyrch newydd sbon, Adeiladu Balŵn a ddenodd gefnogaeth busnesau ac unigolion trwy noddi paneli ar ein balŵn aer poeth Tŷ'r Eos ni ein hunain
- Digwyddiadau rhithiol yn cynnwys: ras hwyaid, cwisiau, a theithiau cerdded i enwi dim ond rhai ohonyn nhw
- Cyflwyno Raffl Haf Fawreddog lwyddiannus
- Lansio ein Jin Tŷ'r Eos ni ein hunain mewn partneriaeth â Shropshire Gin Distillery
- 'Santa'n Galw' – dewis gwahanol i Groto Santa fel bod teuluoedd yn archebu galwad ar Zoom gyda Santa.

TRAWSNEWID EIN DULL O WEITHIO

Mae Cofid -19 wedi rhoi ergyd enbyd i'n hosbis a bu'n rhaid i ni roi newidiadau sylweddol mewn grym er mwyn cynnal gofal lliniarol o'r radd flaenaf o fewn ein dalgylch.

Yn ystod y pandemig lansion ni wasanaeth ymgynghoriad uniongyrchol yn yr hosbis. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl sydd ag angen gofal lliniarol, cyflyrau fel canser, MND a methiant ar y galon, sy'n gofyn am asesiad neu driniaeth gan ein tîm yn yr hosbis. Cyflwynwyd hyn i godi'r pwysau oddi ar y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol gan alluogi'r cleifion i gael mynediad i wasanaethau'r hosbis yn gynt a chynharach. Bu'r gwasanaeth o werth arbennig i'r gymuned ac mae'n rhywbeth sydd bellach wedi ei sefydlu'n rhan o'r gwasanaeth craidd yn Hospis Tŷ'r Eos.

“Me'r hosbis yn wynebu ei her fwyaf er pan agorodd 25 o flynyddoedd yn ôl.”

- Eluned Griffiths, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Y TU ÔL I BOB RHIF MAE STORI AM FYWYD GO IAWN TAITH ANDREA

Pan ddaw cleifion i mewn i'r hospis am y tro cyntaf mae ein tîm am i'w profiad nhw a'u teuluoedd fod yn un positif a chysurlon.

Mae taith y claf i Dŷ'r Eos yn aml iawn yn cael ei adlewyrchu yn eu hanwyliaid, am fod pob un ohonyn nhw'n yn ceisio delio â'u teimladau a'u hemosiynau eu hunain.

Cysylltiad cyntaf Andrea Gardiner â'r hosbis oedd yn 2014 pan dderbyniwyd ei mam, Sylvia, i'r hosbis yn glaf-mewnol yn dioddef o'r Clefyd Niwronau Motor (CNM), Bu'n gyfnod gwerthfawr, pan oedd modd i Andrea a'r teulu ymweld â Sylvia pryd bynnag y mynnent.

Bu'r argraff barhaol o'r gofal a gafodd Sylvia yn fflam o obaith i Andrea pan ddarganfuwyd bod ganddi ganser. Roedd profiad Andrea o'r gofal a'r amgylchedd yn golygu ei bod yn teimlo'n gartrefol yn cofleidio holl ethos yr hosbis am ei bod eisoes wedi gweld drosti hi ei hunan yr hyn a oedd ar gael ar gyfer cleifion yn dioddef anhwylderau cyfyngu ar oes.

Pan ddarganfuwyd fod gan Andrea, 51 oed o Langollen, ganser yr ofari yn 2019, cafodd nifer o lawdriniaethau a thriniaethau cemotherapi ac roedd yn medru cael cymorth a help ychwanegol gan y tîm yn Nhŷ'r Eos.

Dywedwyd wrth Andre ei bod yn rhydd o'r canser yn 2020 ond roedd ei chyflwr cymhleth yn golygu nad oedd ei chanser eilaidd wedi dod i'r amlwg yn y profion gwaed a'r sganiau arferol. Yn dilyn arhosiad maith yn yr ysbyty sylweddolodd y wraig briod sy'n fam i ddau o blant y gallai'r hosbis gynnig help ychwanegol.

Y llynedd dywedodd Andrea, "Pan oedd mam yn sâl ac yn methu â chael y gofal a'r gefnogaeth gartref, daeth i Dŷ'r Eos fel claf-mewnol. Roedd pawb mor groesawgar o'r funud y daeth i mewn drwy'r drws ac roedd y tîm yn anhygoel yn delio â'i gwaeledd. Rydw i'n cofio mor garedig y buon nhw tuag aton ni fel teulu, yn cymryd y baich nyrsgio oddi arnom ac yn caniatáu inni fwynhau amser gwerthfawr yn ei chwmmi yn ystod y dyddiau a'r wythnosau olaf gawson ni gyda'n gilydd, heb orfod poeni am ei gofal a'i ffigis personol."

Cyn y cyfnod clo a gyda bod y cyfyngiadau wedi cael eu llacio, fel claf-dyddiol roedd Andrea yn medru cael defnyddio'r adnoddau aromatherapi a thylino, yn ogystal â'r gwasanaeth cefnogi, gan roi cyfle iddi siarad am ei gwaeledd ei hun a dod i delerau â'i diagnosis.

Dywedodd Pamela Davies, chwaer Andrea, fod yr hosbis wedi eu cefnogi nhw fel teulu. "Roedden ni'n gwybod y gallen ni roi caniad a rhoi pic i mewn i siarad am ein hofnau ein hunain a thristwch sefyllfa Andrea. Roedden ni'n gwybod pa mor rhyfeddol oedd y staff ar ôl y gofal

gafodd mam – roedd yma awyrgylch gynnes, llawn gofal a dealltwriaeth."

Ar y pryd, dywedodd Andrea "Roeddwn i'n lwcus iawn fod gen i deulu a ffrindiau anhygoel o'm cwmpas a meddyg teulu rhyfeddol, Dr Tanner, yn fy helpu a'm cefnogi ond mae wedi bod o werth amhrisiadwy imi allu troi at Hospis Tŷ'r Eos am help ac arweiniad a medru cael sgwrsio â rhywun fel Sarah yn y Tîm Cefnogi Teuluoedd. Er fy mod i gartref, maen nhw bob amser wrth law ar ben arall y ffôn i gynnig help a chynghor os bydd ar un ohonom angen hynny."

"Mae'n lle gwirioneddol anhygoel – mae wedi newid cymaint ers yr adeg roedd mam yno ac mae'r awyrgylch yno'n peri i bawb ymdawelu a dyna'r union beth y mae arnoch ei angen mewn cyfnodau fel hyn. Mae'n gwneud i chi werthfawrogi pwysigrwydd y fath gyfleusterau yn ein cymuned a pha mor hanfodol ydy codi arian i gadw'r lle ar fynd."

Trista'r sôn, bu farw Andrea yn dawel gartref fis Ionawr 2021 ond meddai ei chwaer, Pamela, "Roedd hi'n gwybod bod ganddi le y gallai fynd iddo i drafod ei gwaeledd a bod rhywle ar gael y gallen ni, ei theulu, roi caniad ffôn, rhoi pic i mewn, neu drafod ein hofnau a'n tristwch ynglŷn ag Andrea. Allwn ni ddim diolch digon i Hospis Tŷ'r Eos am bopeth wnaethon nhw i ni yn ystod dau gyfnod anodd yn ein bywyd teuluol ac mi fyddwn ni hyd byth yn ddiolchgar am y gefnogaerth a gawson ni."




Yn y llun: Andrea gyda'i ffrind Claire Quant



ANDREA GARDINER
1969 - 2021


Y NIFEROEDD Y TU ÔL I'R STORI



INCWM YR HOSBIS £3.172M

- INCWM CODI ARIAN **51%***
- INCWM STATUDOL **20%**
- ELW'R LOTRI **17%**
- INCWM O GYMYNRODDION **12%**

*Mae Incwm Codi Arian yn cynnwys: Gweithgareddau codi arian, adwerthu ac arlwyio. Mae hefyd yn cynnwys arian a dderbyniwyd ar gyfer y Cynllun Cynnal Swyddi a nawdd argyfwng Cofid-19 Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol.



GWARIANT YR HOSBIS £3.166M

- CEFNOGI CLEIFION A'U TEULUOEDD **86%**
- CODI ARIAN **14%**

BETH ELLWCH CHI EI WNEUD?

GWIRFODDOLI

Rydyn ni'n dibynnu ar gefnogaeth gwirfoddolwyr i ddarparu'r gofal gorau oll i'n cleifion. Mae pob gwirfoddolwr yn yr hosbis yn credu yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud a chânt eu sbarduno gan yr effaith y mae hyn yn ei wneud ar fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.

LOTRI'R HOSBIS

Ymunwch â'n Lotri am ddim ond £1 yr wythnos a gwnewch wahaniaeth. Eleni creodd ein lotri £546,188 o elw a defnyddiwyd y cyfan i gefnogi gwasanaethau ar gyfer y cleifion; nawdd a oedd yn hyrwyddo gwaith yr hosbis am 58 o ddyddiau.

Mae manylion llawn y cyfrifon cyfunol ar gael yn Companies House.